

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_

### Astudiaethau Beiblaidd o Actau'r Apostolion

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



**DARLLENWCH**  
Actau 6: 1-15 a  
7: 54-60



**ADNOD**  
**ALLWEDDOL**  
Actau 6:8


## Astudiaeth 1 | Y Cristnogion Cynnar - Steffan



### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

2 Timotheus 2: 3    Hebreaid 11: 32-40    I Pedr 4: 14

Y mis hwn, mae'r astudiaethau'n ymwneud â nifer o ddynion a oedd yn bwysig yn nyddiau cynnar yr Eglwys. Dewch i ni ddechrau gydag astudiaeth am un o wir arwyr y ffydd Gristnogol, sef Steffan.



**C** Rhowch linell trwy'r rhifau a'r geiriau anghywir yn y frawddeg isod:-

Pan glywn ni sôn am Steffan i ddechrau, mae'n un o griw o 10, 12, 7 o ddynion sy'n gofalu am yr arian a'r bwyd a oedd yn cael eu dosbarthu bob dydd i WEDDWON/BOBL SÂL/BLANT.

**C** Rhowch y llythrennau hyn yn y drefn gywir i wneud geiriau a thiciwch y rhai sy'n ddisgrifiad da o Steffan.

TNGOES

THODE

LAHNUNO

RABRUS

.....

.....

.....

.....

Yn ogystal â helpu pobl oedd mewn angen, roedd Steffan yn helpu i sôn wrth bobl am Efengyl Iesu Grist.

**C** Chwiliwch yn yr Adnod Allweddol am **DDAU** beth yr oedd Steffan yn gallu eu gwneud trwy nerth Duw.



Cyn hir, roedd yr Iddewon yn genfigennus o Steffan ac yn ei gasáu. Roedden nhw'n gwrthod credu yn Iesu. Fe ddechreuon nhw ddadlau â Steffan a, cyn hir, fe wnaethon nhw rywbeth gwaeth!

**C** Darllenwch adnod 12 a rhoi geiriau addas yn y bylchau:-

Fe wnaethon nhw \_\_\_\_\_ y bobl, ac \_\_\_\_\_ ar Steffan a'i \_\_\_\_\_  
a dod ag ef gerbron y Sanhedrin.

2

4

2

3

Roedd Steffan yn garcharor yn awr a bu'n rhaid iddo ymddangos gerbron Cyngor pwerus iawn. Cafodd gyfle i ateb eu cyhuddiadau. Am beth amser, roedd y Cyngor yn gwrando'n ofalus arno ond, cyn i Steffan orffen siarad, fe gollon nhw eu hamynedd a mynd yn ffyrnig yn ei erbyn.



(Gallwch ddarllen beth a ddywedodd Steffan yn Actau 7: 2-53).

**C** Beth ddigwyddodd nesaf? Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau'n **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**.

- Roedd y bobl yn llabyddio Steffan trwy daflu cerrig ato. ....
- Wrth iddo farw, mellithiodd Steffan y dynion oedd yn ei gam-drin .....
  - Wrth iddo farw, gweddiodd Steffan dros y rhai oedd yn ymosod arno. ....
  - Bu farw Steffan y tu mewn i'r ddinas. ....
  - Rhoddodd y dynion oedd yn ymosod arno eu dillad wrth draed Saul. ....

5

Hyd yn oed pan oedd popeth ar ei waethaf, roedd Steffan yn gwybod mai Duw oedd yn rheoli ac na fyddai'n ei siomi.

**C** Ysgrifennwch beth a welodd Saul yn y weledigaeth a roddodd Duw iddo.

--	--

2

Mae Cristnogion trwy'r oesoedd wedi teimlo bod Duw yn agos atynt pan fydd popeth o'i cwmpas yn mynd o'i le. Gallwch chithau hefyd ddibynnu ar Dduw i'ch helpu bob amser os rhowch eich bywyd iddo fel Gwaredwr ac Arglwydd.

Yr enw ar rywun sy'n marw dros yr hyn mae'n gredu ynddo yw "merthyr".

Glynodd Steffan at yr hyn yr oedd yn ei gredu. Gwrthododd wadu ei ffydd yn Iesu. Steffan oedd y cyntaf i farw dros ei ffydd yn Iesu, felly rydym yn dweud mai Steffan oedd:-

**“Y \_\_\_\_\_ CRISTNOGOL CYNTAF”**  
(Llanwch y bwlch)

1

Efallai na fydd raid i ni ddiodeff fel y gwnaeth Steffan, ond mae'n bwysig bod pob Cristion yn ffyddlon i'r Arglwydd Iesu, beth bynnag sy'n digwydd i ni.

**C** Edrychwch ar ran olaf Datguddiad 2:10 ac ysgrifennu addewid yr Arglwydd Iesu.


1



DARLLENWCH  
Actau 6:5, 8: 4-17  
ac 8: 26-40



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 8: 35

## Astudiaeth 2 Y Cristnogion Cynnar - Philip



### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Eseia 53: 1-12 Actau 21: 8 a 9



Ydych chi'n cofio dechrau'r astudiaeth ddiwethaf? Yn yr eglwys yn Jerwsalem, roedd criw o ddynion wedi cael tasg arbennig i'w gwneud.

**C** Edrychwch yn ôl ar Actau 6: 5 i weld beth oedd y dasg honno a thynnu llinell trwy'r rhifau a'r geiriau anghywir yn y frawddeg a ganlyn:-

Fel LUC / IOAN / STEFFAN, roedd Philip yn aelod o'r criw  
o 5 / 7 / 9 o ddynion oedd i fod i helpu'r  
DEILLION / PLANT / GWEDDWON.

Yn nes ymlaen, aeth Philip â'r 'Newyddion Da' (yr Efengyl) i'r  
GOGLEDD ac yna i'r DE.

**C** Edrychwch ar y map a defnyddiwch yr adnodau a roddir yn gliwiau i lenwi enwau'r llefydd a nodir.




**C** Dewch i weld beth ddigwyddodd i ddechrau.

Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau'n GYWIR neu'n ANGHYWIR.

- Roedd pobl y ddinas yn gwrando'n astud ar Philip. ....
- Ni ddigwyddodd gwyrth pan oedd Philip yn pregethu. ....
- Daeth yr efengyl â llawenydd mawr i'r ddinas. ....
- Cafodd y rhai a gredodd eu bedyddio. ....
- Daeth lago ac loan o Jerwsalem i weld beth oedd yn digwydd yn Samaria. ....

Mae'r rhan hon o'r astudiaeth yn dangos i ni sut y bu i Dduw achub llawer o bobl mewn dinas fawr. Ond mae'n rhaid i ni gofio bod angen i ni ddod at yr Arglwydd Iesu fel UNIGOLION. Ydych chi wedi dod ato eto? Yna, aeth Philip tua'r de.

**C** Ysgrifennwch ar y faner enw'r wlad o ble'r oedd y dyn y daeth Philip ar ei draws yn dod. (Mae'n wlad yn Affrica.)



3

2

5

1

Roedd y dyn yn darllen rhan o'r Hen Destament o sgrôl.

**C** Llanwch y geiriau cyntaf a ddarllenodd y dyn, ac ysgrifennwch enw'r proffwyd oedd wedi ysgrifennu'r geiriau hynny dros 700 mlynedd cyn hynny

Ysgrifennwyd gan: .....

2

Doedd y dyn o Ethiopia ddim yn deall ystyr y geiriau. Doedd e ddim yn gwybod am bwy yr oedd y proffwyd yn sôn.

**C** Copiwch yr Adnod Allweddol i ddangos sut yr esboniodd Philip hyn wrth y dyn.

2

Esboniodd Philip fod Iesu wedi marw fel y gallai Duw faddau ein pechodau ni. Esboniodd mai'r cyfan y mae'n rhaid i ni ei wneud yw "credu" neu "ymddiried" yn yr Arglwydd Iesu.

**C** Credodd y dyn o Ethiopia yn yr Arglwydd Iesu. Beth oedd e eisiau i Philip ei wneud iddo wedyn?

1

**C** I orffen y stori, rhowch y geiriau hyn yn y bylchau cywir:-

LLAWEN DDŴR FEDYDDIO CREDU

Wrth iddynt fynd, daethant at ryw \_\_\_\_\_. Gofynnodd y dyn o Ethiopia a allai gael ei \_\_\_\_\_. Dywedodd Philip y câi ei fedyddio os oedd yn \_\_\_\_\_ â'i holl galon. Pan ddaeth y dyn allan o'r dŵr, aeth ymlaen â'i daith yn \_\_\_\_\_ gan ei fod wedi derbyn Iesu'n Waredwr iddo.

4



Yn y Testament Newydd, roedd Cristnogion yn cael eu bedyddio trwy gael eu trochi mewn dŵr i ddangos yn gyhoeddus eu bod wedi dod yn ddilynwyr Iesu.

Roedd gweithred gyhoeddus y bedydd yn arwydd o'i ffydd bersonol yn yr Arglwydd Iesu. Roedd eisiau i bawb oedd gydag ef wybod am y newid mawr a fu yn ei fywyd.



DARLLENWCH  
Actau 10: 1-8  
a 23-48



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 10: 43

## Astudiaeth 3 Y Cristnogion Cynnar - Cornelius

### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Rhufeiniaid 10: 12 ac 13 Galatiaid 3: 27 a 28

Mae'r astudiaeth hon yn sôn am swyddog (neu ganwriad) yn y fyddin Rufeinig a ddaeth i gredu yn Iesu. Mae ei stori ef yn bwysig gan ei bod yn dangos nad ar gyfer yr Iddewon yn unig yr oedd yr efengyl. Mae pobl nad ydynt yn Iddewon ("y Cenhedloedd" yw'r enw arnynt yn y Beibl) yn gallu cael eu hachub ar yr un telerau'n union â'r Iddewon.

**C** Beth oedd enw'r swyddog?

1

**C** Ysgrifennwch dri pheth a ddywedir amdano?


3



**C** Esboniwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth ddywedodd angel Duw wrtho am ei wneud.


2

**C** Ar y map hwn, nodwch enwau:-

1. Y dref lle'r oedd y canwriad yn byw.
2. Y dref lle'r oedd Pedr yn aros.



2

**C** Rhowch gylch o gwmpas nifer y dynion a aeth i nôl Simon Pedr.

7   2   3   5

1

Mae'r ffaith fod Duw wedi anfon angel at Cornelius gan ddweud sut i ddod o hyd i Pedr yn dangos bod Duw yn awyddus iawn i'r dyn hwn ddysgu sut y gellid maddau ei bechodau. Mae Duw yn awyddus iawn i chithau ddeall a chredu ei Newyddion Da hefyd.

Dewch i gael gweld beth ddigwyddodd pan ddaeth Pedr i dŷ Cornelius.

**C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau'n GYWIR neu'n ANGHYWIR.**

- Roedd Cornelius ar ei ben ei hunan yn y tŷ pan gyrhaeddodd Pedr. ....
- Arhosodd Pedr am wythnos cyn mynd. ....
- Syrthiodd Cornelius wrth draed Pedr a'i addoli. ....
- Roedd Pedr yn falch o weld Cornelius yn ei addoli. ....
- Dywedodd Cornelius eu bod yn barod i glywed neges Duw iddynt. ....

5

Pan siaradodd Pedr â'r bobl yn y tŷ, soniodd wrthynt am yr Arglwydd Iesu.

**C Yn adnodau 36-43, cawn grynodedb o'r hyn a ddywedodd Pedr. Rhowch rifau'r adnodau i ddangos y gwahanol bethau a ddywedodd am Iesu:-**

- Sôn am ei groeshoelio.  Sôn am ei fywyd, ei ddysgeidiaeth a'i wyrthiau.
- Sôn amdano'n atgyfodi.  Sôn am ei benodi'n Farnwr pawb.

4

Yna, soniodd Pedr wrth y bobl yma o'r Cenhedloedd fod modd iddynt gael maddeuant pechodau trwy enw Iesu.

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**


1

Y diwrnod hwnnw, credodd Cornelius a phawb oedd yn gwrando'r gair yn ei dŷ yn yr Arglwydd Iesu ac felly daethant yn Gristnogion. Roedd y bobl hyn ymhlith y rhai cyntaf o'r Cenhedloedd i gredu yn yr Arglwydd Iesu.

Heddiw, does dim ots pa liw ydym nac i ba hil neu grefydd yr ydym yn perthyn. Mae Duw yn abl ac yn barod i achub pawb sy'n ymddiried yn Iesu.

**C I grynhoi prif bwynt yr astudiaeth hon, ysgrifennwch eiriau Rhufeiniaid 10: 12 ac 13.**


1

**C YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, ysgrifennwch beth rydych wedi'i ddysgu o'r astudiaeth hon.**




## DARLLENWCH

Actau 4: 32-37  
9: 26-31 ac 11: 19-30



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 11: 24

## Astudiaeth 4 Y Cristnogion Cynnar - Barnabas



## Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

I Corinthiaid 15: 58 Galatiaid 6: 9 Effesiaid 2: 8 a 9

Mae'r astudiaeth hon yn sôn am ddydd oedd yn cael ei alw'n Barnabas; yr apostolion a roddodd yr enw hwn iddo. Roedd ganddo enw arall cyn hynny.

## C Gorfennwch y brawddegau hyn:-

Ei enw gwreiddiol oedd .....

Deuai o ynys .....

Mae'r enw BARNABAS yn golygu .....

3

Galwodd yr apostolion ef yn Barnabas am ei fod bob amser yn helpu ac yn annog pobl eraill.

## C Ysgrifennwch frawddeg yn sôn am un o'r pethau cymwynasgar a hael a wnaeth.


2

Gan fod Barnabas yn caru'r Arglwydd Iesu, roedd yn barod i roi pethau nad oedd mo'u hangen arno i helpu pobl eraill. Roedd ei gariad at yr Arglwydd yn ei wneud yn anhunanol. Dylai pawb sy'n caru'r Arglwydd Iesu fod yn garedig i eraill.

## C Dewch i weld beth a ddigwyddodd nesaf pan ddaeth Saul, a oedd yn casáu'r Cristnogion, yn Gristion a dweud ei fod am ymuno â'r eglwys. Tynnwch linell trwy'r geiriau anghywir yn y brawddegau a ganlyn:-

1. Roedd Saul eisiau ymuno ag eglwys CYPRUS, JERWSALEM, TARSUS.
2. Roedd y Cristnogion yn FALCH, OFNUS, WAWDLYD am eu bod yn gwybod sut ddydd ydoedd.
3. Aeth BARNABAS, PEDR, IAGO â Saul, ac esbonio wrth yr apostolion ei fod wedi newid mewn gwirionedd.
4. Unwaith eto, roedd Barnabas wedi dangos ei fod yn AMHAROD, GYNDYD, BAROD i helpu rhywun oedd mewn angen.

4

Mae'r darlleniad ym mhennod 11: 19-30 yn dangos sut y lledaenodd yr efengyl tua'r gogledd i ddinas arall.


## C Rhowch enw'r ddinas hon isod, ynghyd â thri lle arall sy'n cael eu henwi.

1. A.....

2. C.....

3. Ph.....

4. T.....



2



**C** Ysgrifennwch yr adnod sy'n dweud bod llawer o bobl Antiochia wedi credu.


  
  

## CHWILAIR

**C** Chwiliwch yn adnodau 22-26 am yr atebion i'r cliwiau hyn ac yna rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair.

1. Enw'r ddinas y cafodd Barnabas ei anfon iddi.
2. I ble'r aeth Barnabas i chwilio am Saul?
3. Am ba hyd yr arhosodd Barnabas a Saul yn Antiochia?
4. Enw am rywun sy'n credu yn Iesu a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf yn Antiochia.
5. Pa fath o ddyn oedd Barnabas?

I	S	T	H	I	S	C	T	
T	H	E	R	E	A	R	D	
A	N	T	I	O	C	H	I	A
R	L	J	I	F	M	S	A	
S	M	A	J	U	S	T	C	
U	I	L	L	E	D	I	A	
S	M	A	N	P	U	O	T	
B	L	W	Y	D	D	Y	N	A

**C** Mae'r Adnod Allweddol yn crynhoi bywyd Barnabas. Ysgrifennwch hi yma.

Roedd Barnabas yn byw er mwyn ERAILL. Mae'n rhaid i ni ddeall ei fod yn DDA ac yn GWNEUD DAIONI, nid er mwyn bod yn Gristion, ond am ei fod yn Gristion. Nid trwy 'wneud daioni' y gallwn ni ddod yn Gristnogion, ond trwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu, fel y dywed Effesiaid 2: 8 a 9.

**C** Ysgrifennwch yr adnodau hyn.

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120